



Gofal o dan yr Enfys

Astudiaethau achos

Astudiaeth achos 1:

Mae aelodau eraill o staff wedi rhoi gwybod i chi'n ddiweddar am breswilydd, Sandra (menyw wyn Brydeinig, 76 oed) sy'n profi sylwadau homoffobaidd gan breswylwyr eraill (er enghraifft, maent wedi clywed preswylwyr yn cyfeirio ati fel 'y dyke yna' ac i gadw i ffwrdd oddi wrthi). Rydych chi'n ymwybodol drwy sgysiau gyda Sandra ei bod yn teimlo'n unig ac yn ei chael yn anodd cysylltu a chymdeithasu gyda'r preswylwyr eraill – mae hi wedi sôn ar sawl achlysur nad yw hi'n teimlo bod ganddi ddim yn gyffredin â'r preswylwyr eraill. Nid yw Sandra wedi crybwyll sylwadau homoffobaidd gan y preswylwyr eraill, na'i bod yn arddel hunaniaeth lesbiaidd neu hoyw. Nid yw Sandra wedi trafod perthnasau gyda'i theulu na'i hanwyliaid, ac nid yw'n tueddu i gael llawer o ymwelwyr.

Beth yw'r prif bryderon yma?

Sut byddech chi'n mynd ati i ddechrau?

Beth fyddech chi'n hoffi ei wybod?

Sut byddai'r polisiâu presennol yn y cartref gofal yn cefnogi eich ymateb cychwynnol?

Oes unrhyw bolisiâu yn eisiau, a beth fyddech chi'n ei wneud am hyn?

Gair i gall:

- ★ Dylai'r staff gyfeirio at bolisi'r cartref gofal ar daclo ymddygiad gwahaniaethol a sarhaus yn y cartref (gan staff a phreswylwyr) bob tro.
- ★ Mae'n hollbwysig siarad gyda Sandra mewn modd sensitif ac yn breifat er mwyn clywed ei safbwyntiau a'i dymuniadau o ran sut dylai'r staff ymateb.
- ★ Mae'n bosib y byddai siarad gyda Sandra'n uniongyrchol yn cynnig cyfle i archwilio ffyrdd o'i chynnwys yn fwy yn y cartref, neu gyfleoedd iddi gael cymryd rhan mewn grwpiau a gwasanaethau y tu allan i'r cartref gofal.
- ★ Mae profi gwahaniaethu ar sail cyfeiriadedd rhywiol yn anghyfreithlon i unrhyw ddarparwr gwasanaeth (cyhoeddus a phreifat) o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, waeth pa hunaniaeth mae Sandra'n ei harddel.

Astudiaeth achos 2:

Rydych chi'n uwch aelod o staff ac mae aelod o'ch tîm yn rhoi gwybod i chi bod aelod o'r tîm a gyflogwyd yn ddiweddar, Megan (Gwyn, Prydeinig, 56 oed) yn gwrthod gweithio gyda phreswlydd hŷn gwrywaidd (Du, Prydeinig, 82 oed) gan ei fod 'yn un o'r hoywon yna' a 'fyddai Duw ddim yn caniatáu i fi weithio gyda phobl fel yna, sy'n llawn pechod'. Rydych chi'n ymwybodol drwy ei chyfweliad bod Megan yn Gristion o argyhoeddiad a'i bod wedi gweithio mewn swydd fel hyn o'r blaen; ac ni wnaed cwyn o'r blaen. Mae Megan wedi cwyno am weithio gyda Geoff gan ei bod wedi sylwi ar DVDs pornograffig gwrywaidd ar ei silff lyfrau yn ei ystafell hefyd. Mae Geoff yn arddel hunaniaeth hoyw yn agored gyda'r preswylwyr a'r staff, ac yn ddiweddar fe ofynnodd a fyddai aelod o staff yn gallu mynd gydag e i'r Wyl Pride leol eleni; mae Geoff yn defnyddio ffrâm gerdded ac mae ei symudedd wedi'i gyfyngu.

Beth yw'r prif bryderon yma?

Sut byddech chi'n mynd ati i ddechrau?

Beth fyddech chi'n hoffi ei wybod?

Sut byddai'r polisiâu presennol yn y cartref gofal yn cefnogi eich ymateb cychwynnol?

Oes unrhyw bolisiâu yn eisiau, a beth fyddech chi'n ei wneud am hyn?

Gair i gall:

- ★ Dylai'r staff gyfeirio at bolisi'r cartref ar dacio ymddygiad gwahaniaethol a sarhaus yn y cartref (gan staff a phreswylwyr) bob tro.
- ★ Mae angen trafod y pryderon a godwyd gyda Megan yn breifat er mwyn rhoi cyfle iddi ymateb - mae'n bosib nad yw'r cyhuddiadau'n gywir nac yn cynrychioli ei safbwyntiau.
- ★ Gall hyn fod yn gyfle da i holl staff y cartref gofal gymryd rhan mewn sesiwn hyfforddiant diweddarau ar gydraddoldeb ac amrywiaeth er mwyn atgoffa'r holl staff o egwyddorion a gwerthoedd y cartref gofal a'r polisiâu.
- ★ Mae gan Geoff hawl i gadw a gwerthfawrogi ei eiddo preifat, a mwynhau'r rhain yn ei gwmni a'i ofod preifat ei hun.
- ★ Os yw Geoff eisiau cefnogaeth i gael mynd i Pride, byddai'n ddefnyddiol siarad gyda nhw i ganfod pwy fyddai'n well ganddo fynd gydag e a sut mae e'n meddwl dylai hyn ddigwydd - gan gadw dymuniadau Geoff wrth galon unrhyw benderfyniad a wneir.
- ★ Mae'n bosib y bydd preswylwyr eraill yn dymuno mynd i ddigwyddiadau Pride lleol - gellid hysbysebu hyn yn y cartref fel digwyddiad grŵp.

Astudiaeth achos 3:

Mae un o'ch preswylwyr, Mike (Gwyn, Prydeinig, 75 oed), yn ddyn traws. Mae ganddo farf, mae'n foel ac yn gyhyrog, ac nid yw'r preswylwyr eraill yn ymwybodol o'i statws trawsryweddol. Fodd bynnag, mae salwch angheuol ar Mike erbyn hyn. Nid yw wedi ysgrifennu ewyllys, ac nid yw wedi newid ei rywedd yn gyfreithiol gan ei fod wedi bod yn nerfus yn ymwneud â phethau swyddogol erioed. Nid yw'r unig berthynas sy'n fyw ganddo, sef ei frawd bach Sam (62 oed), wedi derbyn ei drawsnewidiad rhywedd erioed, ac mae'n cyfeirio ato fel "Susan" mewn llythyrau. Mae Mike yn gwrthod gadael Sam yn agos ato, ac mae'n poeni'n gynyddol wrth feddwl y gallai Sam gael grym drosto ef a'i etifeddiaeth ar ôl iddo farw.

Beth yw'r prif bryderon yma?

Sut byddech chi'n mynd ati i ddechrau?

Beth fyddech chi'n hoffi ei wybod?

Sut byddai'r polisiâu presennol yn y cartref gofal yn cefnogi eich ymateb cychwynnol?

Oes unrhyw bolisiâu yn eisiau, a beth fyddech chi'n ei wneud am hyn?

Gair i gall:

- ★ Mae'n hollbwysig siarad gyda Mike yn breifat er mwyn canfod beth sy'n bwysig iddo, a phwy ddylai (a phwy na ddylai) fod yn rhan o unrhyw benderfyniadau am ei fywyd ar hyn o bryd a'i ddymuniadau a'i anghenion ar gyfer y dyfodol. Dylid cofnodi hyn ar ffeil.
- ★ Mae'n bosib y bydd Mike yn dymuno penodi rhywun arall yn ei fywyd (ffrind agos, aelodau eraill o'i deulu, partner blaenorol) fel ei atwrneiaeth arhosol.
- ★ Meddyliwch am ffyrdd y gall aelodau o staff gefnogi Mike i gyflawni ewyllys byw (dogfen sy'n gadael i bobl nodi eu dymuniadau ar gyfer gofal meddygol diwedd oes) a'i ewyllys olaf.
- ★ Mae angen i'r staff barchu dewisiadau Mike o ran peidio â chael cyswllt gyda'i frawd iau (neu aelodau eraill ei deulu), a gall hyn gynnwys peidio gadael i Sam ymweld â'r cartref.
- ★ Ystyriwch faint o wybodaeth am Mike y mae angen i aelodau eraill o staff ei gwybod. Mae'n bosib mai dim ond un neu ddau aelod o staff allweddol sydd angen bod yn ymwybodol o hunaniaeth draws Mike.

Astudiaeth achos 4:

Mae Janet (Gwyn, cefndir Iddewig, 84 oed) yn fenyw draws sydd wedi symud i'ch cartref gofal yn ddiweddar. Fe drawsnewidiodd yn hwyr yn ei bywyd, ac roedd yn hapus i fod yn agored am ei statws trawsryweddol pan gyrhaeddodd. Mae'r preswylwyr eraill wedi ei derbyn. Fodd bynnag, yn y deuddeg mis diwethaf, mae hi wedi dechrau dangos arwyddion o dementia, ac nawr mae hi'n cael trafferth cofio pwy ydy hi. Rai boreau bydd yn deffro yn mynnu ei bod hi'n ddyn o'r enw Simon, a bydd yn gymysglyd iawn wrth weld fod ganddi ddillad menywod ac wrth glywed pobl yn ei galw'n Janet. Ddiwrnodau eraill mae'n dal i arddel hunaniaeth Janet, ac mae'n cynhyrfu pan fydd rhywun yn ei galw'n Simon.

Beth yw'r prif bryderon yma?

Sut byddech chi'n mynd ati i ddechrau?

Beth fyddech chi'n hoffi ei wybod?

Sut byddai'r polisiâu presennol yn y cartref gofal yn cefnogi eich ymateb cychwynnol?

Oes unrhyw bolisiâu yn eisiau, a beth fyddech chi'n ei wneud am hyn?

Gair i gall:

- ★ Parchwch ddewisiadau Janet gan gydnabod y gall y rhain newid o ddydd i ddydd.
- ★ Mae'n bosib y bydd angen atgoffa Janet am y pethau sy'n bwysig iddi ac sydd o ddiddordeb iddi – mae gwybod tipyn am hanes bywyd Janet yn bwysig. Mae'n bosib y byddai cael casgliad o luniau pwysig o hanes Janet yn ei helpu i wneud synnwyr o'r hyn sy'n digwydd.
- ★ Archwiliwch ffyrdd y gall y cartref ddarparu cymysgedd o ddillad menywod a dynion yn ystafell wely Janet, fel bod ganddi ddewis bob dydd a bod modd iddi eu cyrraedd yn hawdd.
- ★ Mae'n bosib y bydd anwyliaid Janet yn gweld y profiad yn ofidus a bydd angen ymgynghori â nhw ynghylch sut maen nhw'n dymuno bod yn rhan o'i gofal. Cofiwch y gall anwyliaid Janet gynnwys ffrindiau ynghyd ag aelodau teulu. Siaradwch â Janet yn gyntaf ynghylch pwy y dylai'r cartref gyfathrebu â nhw. Nid yw dangos arwyddion o dementia yn golygu nad oes gan Janet y gallu i wneud ei phenderfyniadau ei hun.
- ★ Rhowch wybod i aelodau o staff sy'n rhan o ofal Janet am y diweddaraf, a sicrhewch fod gan y staff gyfle i ofyn cwestiynau a thrafod unrhyw bryderon sydd ganddynt.
- ★ Sicrhewch fod y cartref yn darparu cyfleusterau ac ystafelloedd ymolchi niwtral o ran rhywedd i'r holl breswylwyr a'r staff, waeth beth yw eu hunaniaeth rhywedd.

Astudiaeth achos 5:

Menyw Ddu 74 oed o dras Affricanaidd-Caribiaidd yw Glenda, sy'n byw'n annibynnol yn y gymuned. Yn ddiweddar, mae Sonia (82 oed), sef partner Gloria ers 40 mlynedd, wedi symud i gartref nyrsio sydd ag uned ar gyfer oedolion â dementia. Nid yw Gloria wedi dod allan i staff y cartref gofal, ond mae'n poeni fawr y bydd a) y staff yn ei gwahardd rhag gweld ei phartner ar ôl oriau a b) bod ei phartner wedi dechrau siarad yn agored am eu bywyd gyda'i gilydd gyda'r staff ac yn dweud wrth y preswylwyr eraill ei bod hi'n ddeurywiol. Roedd Gloria a Sonia'n briod â dynion yn eu hugeiniau cynnar cyn iddyn nhw gwrdd â'i gilydd, ac mae'r ddwy'n arddel hunaniaeth ddeurywiol.

Beth yw pryderon Gloria yma?

Pa sicrwydd fyddech chi'n ei roi i Gloria pe bai Sonia'n breswlydd yn eich cartref chi?

Sut byddech chi'n gwneud i Gloria a Sonia deimlo wedi'u croesawu a'u gwerthfawrogi?

Sut byddai'r polisiâu presennol yn y cartref gofal yn cefnogi eich ymateb?

Oes unrhyw bolisiâu yn eisiau, a beth fyddech chi'n ei wneud am hyn?

Gair i gall:

- ★ Meddylwch am ffyrdd y gall y cartref anfon neges glir at y preswylwyr newydd a'u hanwyliaid am wneud i bawb deimlo wedi'u croesawu a'u cynnwys. Gall cynhyrchu taflen i bartneriaid preswylwyr helpu i roi rhyw sicrwydd i gyplau am driniaeth deg, parch a phreifatrwydd.
- ★ Mae'n bosib y bydd angen i uwch aelod o staff neu reolwr roi sicrwydd i Gloria bod croeso i breswylwyr deurywiol yma, ac y bydd yn cael cefnogaeth i dreulio amser gyda'i phartner ac yn cael ei chydabod fel partner Sonia.
- ★ Mae'n bosib y bydd hyn yn amser da i gyflwyno hyfforddiant diweddarau i'r holl staff a'r rheolwyr ar gynhwysiant a chydaddoldeb LHDT+. Gallai rhan o'r sesiwn ganolbwyntio ar y math o wahaniaethu a'r heriau mae pobl ddeurywiol yn eu hwynebu ar hyd eu bywydau. Mae'n bwysig cydnabod y gall pobl LHDT+ brofi gwahanol fathau o wahaniaethu a thriniaeth annheg yn seiliedig ar wahaniaethau o ran rhywedd, cefndir ethnig a hunaniaeth rhywedd.
- ★ Mae'n bosib y bydd gan staff safbwyntiau ystrydebol am bobl ddeurywiol nad ydynt yn gywir nac yn barchus; mae angen herio'r rhain.

Cynhyrchwyd yr adnodd hwn ar y cyd rhwng Ysgol Astudiaethau Polisi Prifysgol Bryste a'r Ymddiriedolaeth Amrywiaeth, mis Mawrth 2019.

I gael rhagor o wybodaeth ac adnoddau, ewch i www.diversitytrust.org.uk/